



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe**

**Penodi Aelod Annibynnol –
Cyffredinol**

**Dyddiad cau: 14 Rhagfyr 2022 am
16:00.**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cynnwys

Tudalen

Gwneud Cais

3-5

Atodiad A: Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

6-9

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

10-11

Atodiad C: Y broses ddethol

12-13

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dyma gyfle gwych i rannu'ch doniau a'ch arbenigedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ar draws Bae Abertawe. Yn ogystal â chwarae rhan lawn a gweithredol yn llywodraethiant y Bwrdd Iechyd, byddwch yn cynnig profiad a gawsoch ar lefel uwch, a hynny, yn ddelfrydol, mewn sefydliad mawr yn o leiaf un o'r meysydd canlynol: cyllid, datblygu sefydliadol/datblygu pobl, gwasanaethau i ddefnyddwyr neu gleifion, ystadau a deallusrwydd busnes. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-5a7529b2cbd9/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ar gyfer aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith byddwch wedi cofrestru, bydd modd ichi fynd i'r ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y Datganiad Personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni manyleb y person a nodir. Yr allwedd i gais da yw rhoi gwybodaeth benodol i'r darlennydd am sut yr ydych yn bodloni meini prawf y penodiad. Meddyliwch am eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch priodoleddau personol a rhowch dystiolaeth ymarferol sy'n dangos eich addasrwydd orau. Cofiwch deilwra'ch cais yn unol â meini prawf y rôl.

Cofiwch deilwra'ch Datganiad Personol i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf isod.:

1. Disgrifiwch eich profiad o arwain a datblygu sefydliad ar lefel bwrdd uwch neu lefel gyfatebol a'r meysydd perthnasol o arbenigedd penodol y byddech yn eu cynnig i'r rôl hon.
2. Drwy enghraifft benodol, dangoswch eich profiad o ddwyn eraill i gyfrif tra'n cynnal perthynas dda.
3. Disgrifiwch enghraifft pan fu raid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn cyfrannu at broses benderfynu gadarn, yn ddelfrydol mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif.
4. Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion iechyd a gofal yng nghydestun Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar lefel y gymuned, lefel awdurdod lleol a'r lefel genedlaethol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

5. Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau rhyngpersonol i ddangos effaith personol a'r gallu i weithio fel tîm.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirida (geirida cyflogwr a geirida personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	w/d 14/12/2022
Llunio rhestr fer:	w/d 16/01/2023
Cyfweliadau:	w/d 20/02/2023

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni'r lefel ofynnol o ran cymhwysedd ar gyfer y rôl. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, rhowch wybod i'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Enwau Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr aelod annibynnol, cysylltwch ag Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Ffôn: (01639) 683379. E-bost: Emma.Woollett@wales.nhs.uk

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd: <https://bipba.gig.cymru/>

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Penodi Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Disgrifiad o'r Rôl

Dyma gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwch yn:

- **Chwarae rhan lawn a gweithredol yn llywodraethiant y Bwrdd Iechyd**, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Bydd disgwyl ichi gynnig i'r Bwrdd farn annibynnol ar faterion yn ymwneud â pherfformiad, apwyntiadau allweddol, edrych i'r dyfodol ac atebolrwydd;
- **Cyfrannu at wireddu gweledigaeth strategol y Bwrdd**, ar sail eich annibyniaeth, eich profiad blaenorol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i sefyll yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd;
- **Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn**, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw;
- **Deall, ymhen amser, y sefydliad yn llawn** drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i weithredu'n effeithiol;
- **Gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus eraill a sefydliadau preifat a gwirfoddol**, gan sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- **Cefnogi'r Cadeirydd i ddatblygu bwrdd unedol effeithiol.**

Manyleb y person

Mae'n **hanfodol** bod yr Aelod Annibynnol yn meddu ar y priodoleddau canlynol:

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad perthnasol a diweddar yn o leiaf un o'r meysydd canlynol, ac yn ddelfrydol bydd y profiad hwnnw ar lefel uwch mewn sefydliad mawr: cyllid, rheolaeth fewnol a rheoli risg, datblygu sefydliadol/datblygu pobl, gwasanaethau i ddefnyddwyr neu gleifion, ystadau a deallusrwydd busnes;
- Profiad o gyfrannu'n effeithiol mewn bwrdd a dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i gefnogi datblygiad bwrdd unedol mewn sefydliad mawr a chymhleth;
- Profiad o oruchwylio proses o gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth yn effeithiol a deall pryd a sut i ofyn am ragor o fanylion heb golli persbectif aelod annibynnol (anweithredol).

Priodoleddau Personol a Sgiliau

Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:-

- Y gallu i arwain ac ysbrydoli, edrych i'r dyfodol a nodi materion allweddol ar gyfer y sefydliad;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill;
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at benderfyniadau cadarn;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ynghyd â'r gallu i fod yn annibynnol, yn glir ac yn gryno, a'r gallu i feithrin cysylltiad â phobl ar bob lefel;
- Barn gadarn, sensitifrwydd, ymwybyddiaeth wleidyddol a gwynwch.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:-

- Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb, amrywiaeth a 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan', ynghyd ag ymrwymiad iddynt;
- Dealltwriaeth o faterion iechyd a blaenoriaethau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac ymrwymiad gwirioneddol i gleifion a hyrwyddo gwasanaethau rhagorol.

Dyma ddolen at ein gwerthoedd:

<https://bipba.qig.cymru/gweithio-i-ni/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant/>

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni manyleb y person.

Byddai Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn fwy na pharod i drafod y rôl a manyleb y person ag ymgeiswyr. Cysylltwch drwy'r manylion ar dudalen 4 i ofyn am sgwrs.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y penodiad hwn. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Baglan, Port Talbot
Ymrwymiad Amser:	O leiaf pedwar diwrnod y mis
Hyd y penodiad:	Bydd yr apwyntiad cychwynnol am gyfnod o <u>hyd at</u> 4 blynedd, fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar gytundeb Gweinidogion
Taliad Cydnabyddiaeth:	£15,936 y flwyddyn, ynghyd â chostau teithio a chostau eraill o fewn rheswm.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Bydd unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r penodiad:

- a. os y'i cafwyd yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb yr opsiwn o ddirwy;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- b. os yw'n destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu os yw wedi gwneud compównd neu drefniant â chredydwy;
- c. os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
- d. yn aelod cyfredol o fwrdd corff gwasanaeth iechyd arall yng Nghymru;
- e. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
- f. os yw, neu wedi bod yn y flwyddyn flaenorol, mewn swydd gyflogedig mewn Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd yng Nghymru o fewn ardal y Bwrdd y mae'n ceisio cael ei benodi iddo.

Yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru fod person yn anghymwys i fod yn Gadeirydd, yn Is-gadeirydd neu'n aelod nad yw'n swyddog os yw'r person, neu os bu'r person yn y flwyddyn flaenorol, mewn swydd gyflogedig mewn Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth yn ardal y Bwrdd y mae'n ceisio cael ei benodi iddo.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru, o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

[Gorchymyn Senedd Cymru \(Anghymhwyso\) 2020](#)

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Bartneriaeth Gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad arnynt.

Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gwrthdaro Buddiannau

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gan gynnwys buddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddioli'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen hon yma.

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cefndir

Dyma gyfle cyffrous i gyfrannu at wasanaethau iechyd lleol, gan ddilyn trywydd strategol GIG Cymru.

Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt) ei greu ar 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael ei drosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'r bwrdd newydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae gan ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe boblogaeth o tua 390,000 o bobl a chyllideb flynyddol o dros £1 biliwn. Mae'n cyflogi tua 12,500 o staff, a 70% ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'n cynnig gofal integredig i gleifion, ac yn darparu gwasanaethau gofal aciwt, canolraddol, iechyd meddwl, cymunedol a sylfaenol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

At hynny, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, gan gynnwys llawdriniaeth ar y galon, a llawdriniaeth blastig ac ar gyfer llosgiadau i gleifion yn Ne-orllewin Lloegr, gwasanaethau iechyd meddwl fforensig i Dde Cymru a gwasanaethau anabledau dysgu o Abertawe i Gaerdydd, yn ogystal ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Darperir Gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy ymarferwyr cyffredinol, optegwyr, fferyllwyr cymunedol a deintyddion sydd i gyd yn gweithredu fel contractwyr annibynnol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rheoli Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer carchar Abertawe.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe dri ysbyty aciwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau:

- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot;
- Ysbyty Singleton yn Abertawe;
- Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Mae hefyd nifer o ganolfannau adnoddau gofal sylfaenol ac ysbytai cymunedol llai eu maint sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i breswylwyr y tu allan i'r pedwar prif ysbyty aciwt.

Mae gennym strategaeth sefydliadol uchelgeisiol sy'n cyd-fynd yn agos â chyd-destun polisi a deddfwriaeth blaengar Cymru, gan gynnwys newid i atal a gofal sylfaenol, integreiddio â gwasanaethau cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi meithrin partneriaethau cadarn â byrddau iechyd cyfagos, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac eraill. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Prifysgol Abertawe. Rydym yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu diwylliant sy'n cael ei yrru gan ymchwil ac addysg, gan gydweithio'n agos â Choleg Meddygaeth, Gwyddorau Dynol ac Iechyd ac Athrofa Gwyddor Bywyd y Brifysgol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rhan o brosiect cyffrous ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd. Dyma Iechyd a gwyddoniaeth yn gweithio gyda'i gilydd, i wella Iechyd, cyfoeth a llesiant pobl De-orllewin Cymru.

Rôl y Bwrdd

Dyma'r tair rôl allweddol y mae'r bwrdd yn arwain ei sefydliad ynddynt:-

- Llunio strategaeth;
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy;
- Siapio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Mae rôl aelod o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygu strategol a gwneud penderfyniadau;
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill wedi'u dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt drwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad;
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau a systemau rheoli risg a sicrhwydd yn gadarn a bod modd eu cyfiawnhau;
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos drwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid.

Y broses ddethol

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a bydd hefyd yn cynnwys Steve Spill, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Ian Owen o Lywodraeth Cymru, a Simon Jones, Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Aelod Annibynnol y Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhag-weld y bydd panel yn penderfynu, yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **16/01/2023**, pwy fydd yn cael ei wahodd i wneud cyflwyniad i grŵp rhanddeiliaid a chyfweliad yn yr wythnos sy'n dechrau **20/02/2023**.

Ein bwriad yw y bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal naill ai o bell drwy Microsoft Teams neu wyneb yn wyneb yn ein pencadlys.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwllch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.